

(*Parhâd o dudalen 3*)

Lerpwl yn bennaf) yn yr ardal erbyn 1941. Serch hynny, ymddengys mai plant lleol oedd mwyafrif yr awduron y cyhoeddwyd eu straeon yn *Flights of Fancy*.

Beirdd yr ardal

Dwy gyfrol o farddoniaeth yw'r rhai olaf a ystyriwn sef *Blodau'r Ffridd* a ymddangosodd ym 1941 ac *Awen y Ddôl* a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 1949 ac mae nodweddion diddorol yn perthyn i'r ddwy. Ail argraffiad yw *Blodau'r Ffridd* o gyfrol a ymddangosodd gyntaf ym 1880 dan y teitl : *Blodau'r Ffridd/ sef / Cynhyrchion Awenyddawl / Tri Beirdd Elen /* Robert Davies, Ffridd / Evan Jones, Gamedd/ W. R. Williams, Penrhiw / DOLWYDDELAN. Argraffwyd y gyfrol wreiddiol gan W. J. Roberts, Llanrwst, sef Gwilym Cowlyd, ac mae englyn o'i waith ar yr wyneb-ddalen:

*Mân Flodion gwylltion gellydd. - darddasant
A'r ddiswn lanerchydd;*

*Tlysiion bach, mor iach, mor rydd
A dŵr ffrwd, gan dri phrydydd.*

Fel yr awgrymir yn yr englyn, beirdd gwlad oedd y tri hyn, a'r tri yn ddiddorol iawn, yn gymdogion ar dair fferm gyfagos ym Mlaenau Dolwyddelan. Mewn rhagymadrodd byr maent yn cyfarch yr 'hynaws ddarllenydd' fel hyn : ...nid amcanwn ond yn unig gyflwyno i ti Flodeuglwm o flodau gwylltion natur, yn eu diwyg syml a diarddwriaeth. Tarddasant oll ar lechweddau'r ffriddoedd rhywioglan, lle ni wanodd celfyddyd erioed ei swch ddiwyllioli.

Cerddi syml ar destunau digon cyffredin sydd yma megis rhai Robert Davies 'I'r trwrch daear' a'r 'Ci cyndeiriog' ac un reit ddigri i'r 'Fenyw Fud (penillion a gyfansoddwyd i ferch ieuanc oedd yn gwrthod ateb llythyr a anfonasid ati)'. Ymhlith gweithiau W. R. Williams (Gwilym Penrhiw) ceir cerdd ddifyr dan y teitl 'Dechreu mynd i'r dafar' (ym mro mebyd John Jones, Talsarn!) ac un arall ar 'Dad! dau gyfaill (un yn canmol ei fro enedigol a'r llall yn ei gwawdio)'. A dyma bennill olaf y gerdd a gyfansoddodd Robert Davies i'r 'Twnel Mawr' a gloddiwyd ganol yr 1870au i alluogi'r tren i fynd o Ddolwyddelan i Flaenau Ffestiniog. Hawdd dychmygu'r cyffro yn yr ardal pan oedd y gwaith yn ei anterth:

*Mae hwn y Twnel mwyaf
Erioed yn Nghymru wnaed,
Cawn Dren i'n cario drwyddo,
'N lle teithio ar ein traed,
Ac awn i Lan Ffestiniog,-
Trwy rodfa'r Twnel mawr,
Yn ystod rhyw ddeng mynyd-
Yn lle bod am ddwy awr.*

Mae'n amlwg fod Herber Huws wedi gweld digon o werth yn *Blodau'r Ffridd* i ailargraffu'r gyfrol drigain mlynedd ar ôl iddi ymddangos gyntaf. Ond nid tasg hawdd i ddisgyblion ysgol gynradd oedd cysodi'n llafurus destun yr oedd ei ieithwedd yn bur hen ffasiwn erbyn 1941. Serch hynny, fe gadwyd yn agos iawn at y fersiwn gwreiddiol heb newid nemor ddim.

Gwelir felly, fod na gryn brysurdeb yn ysgol Dolwyddelan yn ystod 1940-41 gan fod o leiaf dri os nad pedwar o gyhoeddiadau wedi eu cynhyrchu ar y wasg. Yna, ceir bwleh o wyth mlynedd cyn ymddangosiad y gyfrol nesaf ym 1949. Amgylchiadau anodd blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd, yn arbennig

FLIGHTS of FANCY



COUNCIL SCHOOL PRESS
DOLWYDDELAN

*Wyneb-ddalen o'r unig gyhoeddiad
uniaith Saesneg.*

prinder papur argraffu, sy'n esbonio hyn i raddau a phan ymddangosodd *Awen y Ddôl: gwaith beirdd Dolwyddelan* yn Nhachwedd 1949 mae H. I. Huws yn nodi ar ddiwedd ei ragair : "gofidiwn fod anawsterau lu wedi ein cadw gyhyd heb orffen y gwaith".

Gwaith mwyaf uchelgeisiol

Beth bynnag oedd yr 'anawsterau lu' roedd cyhoeddi *Awen y Ddôl* yn ddigwyddiad o gryn bwys yn hanes wasg yr ysgol ac mae'n llyfryn prin a gwerthfawr erbyn hyn yng nghyd-destun hanes yr ardal. Cyfrol 44 tudalen (ond heb ei thudalennu) ydyw yn cynnwys dau ffotograff, y naill o'r ysgol gyda Moel Siabod yn y cefndir a'r llall o hen eglwys y pentref, a gysegrwyd i Sant Gwyddelan. Ar dudalen ola'r gyfrol ceir hefyd ddau brint leino o gyffiniau'r castell. Yn ei ragair mae'r prifathro yn datgan ei ddiolch i lu o bobl gan gynnwys, "Y Parch George M. Ll. Davies am ein symbylu i argraffu llyfryn o'r fath". Roedd George M. Ll., fe gofir, wedi ymdeol i Ddolwyddelan ym 1946 ac yno y claddwyd ef yn Rhagfyr 1949. "Ac yn olaf" meddai H. I. Huws, " mae

ein dyled yn arbennig i'r Athro J. Lloyd Jones, Dulyn, nid yn unig am gywiro'r orgraff, ond am ei gymorth amyneddgar dros gyfnod hir".

Fe geir cerddi wyth ar hugain o unigolion yn *Awen y Ddôl* ac yn eu plith ddwy o salmau'r Esgob William Morgan, er mawr syndod i blwyfolion Penmachno dwi'n siwr! Ceir hefyd waith tair cenhedlaeth o deulu enwog Tan-y-castell a rhai o gerddi unig brifardd yr ardal, John Lloyd Jones, yn ogystal â cherddi nifer fawr o feirdd mwy lleol a chyfyng eu henwogrwydd. Syndod o'r mwyaf, serch hynny, yw nad oes yma linell o waith Angharad James, Penamnen (1677-1749), y mwyaf rhyfeddol o feirdd yr ardal, ymhob ystyr. Ond awn ni ddim ar ôl hynny!

Wrth gydnabod cymorth y rhai fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r gyfrol fe enwir rheolwyr yr ysgol fu'n helpu "i gasglu darnau" ac enwir 15 o argraffwyr (bechgyn i gyd) ynghyd â 9 o ferched sef "genethod fu'n cysodi darn neu ddau, ac yn gwno'r tudalennau wrth ei gilydd". O ganlyniad i'r cydweithio fe gynhyrchwyd llyfryn oedd yn destun llawer o edmygedd a balchter ar y pryd yn yr ardal ac ymhell y tu hwnt iddi.

Gwelir, felly, o gasglu'r cyfan at ei gilydd fod na nifer go dda o gyhoeddiadau wedi eu cynhyrchu ar wasg yr ysgol ac mae'n ddigon posibl, yn wir, na lwyddais i'w darganfu i gyd. Serch hynny, rwy'n gobeithio fod y sylwadau hyn wedi ateb rhai o'r cwestiynau a godwyd gan Dr Bruce Griffiths ac wedi taflu ychydig oleuni ar weithgarwch pur nodedig yn ysgol Dolwyddelan dros gyfnod o bron i ddeng mlynedd ar hugain.

RHEINALLT LLWYD

O.N. *Hoffwn ddiolch i'r canlynol am bob cymorth pan oeddwn yn ymchwilio i hanes wasg ysgol Dolwyddelan. Fy nghyfaill, Dr Huw Walters, a'm brawd, Hefin Llwyd, o blith staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Hefyd prifathro presennol yr ysgol, Dafydd Horan, ac un o'i gyd-athrawon, Alma Dauncey Roberts, am y croeso pan ddychwelais yno. Ac i ddau o gyfoedion eraill dyddiau ysgol, Anna Wyn a Bryn Hughes, am sawl sgwrs ddifyr yn trafod y wasg a'i chynnyrch, ymysg pethau eraill. Diolch iddynt oll.*



Toriad leino: Castell Dolwyddelan